

Y Rhai Nas Cymodwyd – Garawys 2011

Celwydd a gwirionedd

Dydd Sul, 17 Ebrill 2011

DECHRAU'R DAITH

Beth yw'r gwirionedd am Iesu?

Ar Sul y Blodau, y mae drama ryfeddol dyddiau olaf Iesu ar y ddaear yn dechrau. Ac un o'i themâu pwysicaf yw'r frwydr rhwng celwydd a gwirionedd. Dechreuir â'r cwestiwn o bwy mewn gwirionedd yw Iesu. I'r tyrfaeodd, ef yw Mab Dafydd, arwr a gorchfygwr a fydd yn eu harwain allan o'u gorthrwm. I'r arweinwyr Iddewig, terfysgwr ydyw, selot, troseddwr yn erbyn y gyfraith grefyddol ac un sy'n annog anhunedd gwleidyddol. Ond y mae Iesu'n gwrthsefyll y celwyddau hyn amdano trwy farchogaeth i mewn i'r ddinas ar asyn gwylaidd a gwrthod cytuno â'r storïau amdano fel, yn ddiweddarach, y bydd yn gwrthod ymladd pan gaiff ei arestio. Yn stori'r Dioddefaint gwelwn ef yn gwrthod chwarae gêm yr arweinwyr crefyddol na rhoi iddynt ddim y gallant ei gyhuddo ohono. Ond fe ddônt o hyd i'r cabledd y maent yn chwilio amdano beth bynnag. Bydd hynny'n ddigon i sicrhau y caiff ei weld fel gelyn i'r bobl. Gwelwn hefyd ddrwywch Pilat ynglŷn â'r mater – beth yw'r gwirionedd yn yr hyn a ddywedir am Iesu? Pwy ydyw? Beth mewn difrif y mae wedi ei wneud? Beth ddylid ei wneud ag ef? Try Iesu bethau o chwith trwy gyfeirio nid at y gwir a'r gau mewn materion dynol ond at yr un peth sydd o bwys, sef gwirionedd Duw. Dechreuer gyda gwirionedd Duw, ac fe ddaw holl aflerwch materion dynol i'w le.

Y mae cwestiwn y gwir a'r gau, felly, nid yn unig yn gwestiwn canolog yn neges yr efengyl ond yn llinyn arian hefyd trwy ddigwyddiadau bywyd a marwolaeth Iesu. Deuai pobl i weld Iesu am fod arnynt eisiau gweld gwirionedd Duw yn ei Berson. Ers amser ei eni, deuai pobl i weld addunedau Duw wedi dod yn realiti ac aent ymaith i ddweud am y gwirionedd hwnnw wrth eraill. Beth a welsant? Duw wedi cymryd cnawd dynol, Duw-gyda-ni. Iesu'n datgan mai gwirionedd Duw oedd bod y tlodion i'w dyrchafu, y newynog i'w porthi, y cleifion i'w hadfer a'r carcharorion i'w rhyddhau. Ac ym Mherson Iesu fe wnaed y pethau hyn, fel y gallai pobl weld o flaen eu llygaid gyflawni dymuniad Duw i ddynolryw wrth i Iesu iacháu a phregethu a cheisio'r colledig a'r anghofiedig a'u cyfannu a dod â hwy adref.

Eto, y mae'r efengylau yn glir bod pethau eraill yn digwydd hefyd. Nid pawb oedd yn hapus bod Iesu'n amlygu gwirionedd Duw mor eglur. Roedd pobl yn sibwrdd pethau yn ei erbyn, yn ei gyhuddo o ymgynghreirio â phwerau'r fall, o fod yn derfysgwr, yn broblem, yn droseddwr. Felly, fe ymlidir y storïau am Iesu gan gwmwl o anwireddau, storïau eraill sy'n ceisio dwyn anfri arno, cadw eraill mewn grym a chuddio'r gwirionedd amdano oddi wrth bobl a allai ei gredu.

Nid yw'n ddim gwahanol heddiw. Ymlidiwyd y ffydd Gristnogol gan esboniadau eraill sy'n ceisio dwyn anfri arni, anwireddau a ffugiannau rhyfeddol. Y mae a wnelo llawer o'r rhain â'r croeshoeliad a'r atgyfodiad: ni fu Iesu farw ar y groes, ond fe ddihangodd i fyw yn rhywle arall; cafodd ei gorff ei ddwyn gan ei ddisgyblion a chymerasant arnynt ei fod wedi atgyfodi o blith y meirw; Iesu ffug oedd ar y groes, naill ai corff dynol yn unig, heb fod yn Dduw, neu ynteu ysbryd Duw heb gorff real y gellid ei ladd; priododd Iesu â Mair Fagdalen a byw'n hapus byth wedyn. Cynllwyn oedd y cyfan. Rhith. Stori wneud.

Ond y gwirionedd anoddaf y mae'n rhaid ei wynebu ar y Pasg yw bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist, Mab Duw, yn wir. Ac y mae'n wirionedd sy'n gwrthod mynd ymaith, am ei fod yn byw oddi mewn i Gristnogion hyd heddiw ac yn eu hysbrydoli. Wrth inni fynd i mewn i'r Wythnos Fawr, meddyliwn am y gwirionedd a'r celwyddau sy'n ymryson am y stori hon. Gofynnodd Pilat i Iesu 'Beth yw gwirionedd?' Ar y Pasg, byddwn yn penderfynu.

Gweithgaredd

Gêm gwir a gau

Dosbarthwch bapur a phinau ysgrifennu.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp ysgrifennu dau wirionedd ac un anwiredd amdanynt eu hunain, a dewis pethau a all argyhoeddi'r lleill fod y gwirionedd yn anwiredd a'r anwiredd yn wirionedd.

Er enghraifft: ganed fi yn Llundain (gwir), mae gen i dair chwaer (gwir), rwy'n llysiuwr (gau).

Yn ddeuoedd, gofynnwch i bobl drafod eu datganiadau gwir/gau gyda'r amcan o berswadio eu partner fod eu hanwiredd yn wir ac un o'u datganiadau gwir yn anwir. Peidied neb â chyfaddef ar hyn o bryd, hyd yn oed os yw'r person arall wedi dyfalu'n gwir.

Gofynnwch i bob un ddarllen ei ddatganiadau ar goedd ac i'r holl grŵp bleidleisio a ydynt yn wir neu'n anwir.

Casglwch adborth ar ba mor hawdd/anodd yw hi i ganfod beth sy'n wir a beth sy'n anwir.

Gweithgaredd

Stereoteipiau

Chwiliwch am jôcs ar y rhynggrwyd sy'n awgrymu bod:

- Gwyddelod yn dwp
- Albanwyr yn gybyddlyd
- Merched pryd golau'n dwp
- Mamau Iddewig ag obsesiwn â'u meibion.

Yn awr ystyriwch y datganiadau a ganlyn:

- Mae pobl ddu yn israddol i bobl wyn.
- Mae merched yn israddol i ddynion.
- Mae pobl sy'n chwilio am loches a ffoaduriaid yn byw ar gefn pobl eraill.
- Byddai'n well i bobl anabl fod yn farw.

Gofynnwch i'r grŵp drafod a oes gwahaniaeth rhwng jôc sy'n llurgunio'r gwirionedd am bobl a dibrisio peryglus ar bobl.

MYND YN DDYFNACH

byw celwydd, ofni'r gwirionedd

Crëir carfannau o bobl Nas Cymodwyd ledled y byd pan ddywedir anwiredd amdanynt neu pan orfodir hwy i fyw celwydd. Daw pobl i fod yn rhai Nas Cymodwyd hefyd pan rwystrir hwy rhag dweud y gwir am yr hyn a ddigwyddodd iddynt. Bu llawer gomes erchyll y mae angen ei hunioni drwy alluogi dweud y gwir amdani. Yn Ne Affrica, er enghraifft, clywodd y Comisiwn Gwirionedd a Chymod lawer stori ingol am brofiad pobl o apartheid, ac y mae Cronfa Goffa Gogledd Iwerddon yn cynnal a chymodi trwy ddwyn i'r amlwg storïau nas clywyd am fyw drwy'r Helbulon.

Ond y mae problemau cyffelyb ynglŷn â'r gwir a'r gau yn ein cymunedau lleol. Gall pobl gael eu creithio gan sibrydion maleisus amdanynt – eu bod yn cymryd cyffuriau, wedi eu heintio gan HIV neu'n rheibwyr rhywiol. Y mae eraill na feiddiant ddweud y gwir ar ffurflenni nac mewn cyfweliadau am swyddi rhag ofn iddynt gael eu hanffafrio. Mewn rhai gwledydd, y mae ar bobl ofn dweud eu bod yn Gristnogion rhag i rywbeth ddigwydd iddynt hwy neu i'w teuluoedd. Hyd yn oed yn ein

heglwysi y mae rhai pobl na fynnant ddweud y gwir amdanynt eu hunain am fod arnynt ofn y derbyniad neu'r driniaeth a gânt gan eu cyd-Gristnogion.

Os ydym yn meddwl am wirionedd Duw, y mae'n fater o bwys y gall pob un fyw'n agored, dweud y gwir amdano'i hun a chael eraill i dderbyn y gwir hwnnw heb ddial. Nid yw hynny'n golygu y dylem gytuno â phopeth a ddywed ein cymydog wrthym, nac amau byth na beirniadu. Nid yw'n golygu y dylem gyfaddawdu ein gwirionedd ein hunain yn enw goddefgarwch neu heddwch anniddig. Ond y mae'n golygu y dylem greu gofod llawn parch lle y gellir dweud y gwir yn onest ac y dylem bob amser weithio i atal y briw a'r niwed a ddaw o ddweud anwiredd am bobl. Y mae yna bobl o'n hamgylch yn byw bywydau Nas Cymodwyd oherwydd anwireddau. Y mae arnynt angen ein cymorth ni i fyw fel y mae Duw am iddynt fyw.

Gweithgaredd

Ystyriwch y stori hon:

Stori Alhaji's

'Yn 1997, pan oeddwn yn ddeng mlwydd oed, euthum ar wyliau Nadolig at fy ewyrth,' meddai Alhaji wrth y Cyngor Diogelwch. 'Yn ystod yr ail wythnos, clywsom fod y gwrthryfelwyr ddeng milltir i ffwrdd oddi wrthym. Rhedasom i'r goedwig i guddio. Ar yr ail noson, aeth fy mrawd hyn a minnau i chwilio am ddŵr at goginio, a daethom ar draws y gwrthryfelwyr. Aethpwyd â ni yn ôl i'n pentref, a chawsom ein clymu a'n curo a'n cadw yn yr haul poeth. Llosgwyd llawer o dai a lladd llawer o bobl. Yn ddiweddarach, fe laddwyd fy ewyrth.

'Y noson honno gorchymynnodd y gwrthryfelwyr inni fynd gyda hwy i'w canolfan yng nghefn tref Kabala. Cerddasom am ddeng niwrnod trwy'r goedwig, heb ond ychydig oriau o orffwys a heb ond ychydig iawn o fwyd. Wedi cyrraedd cawsom wythnos o hyfforddiant ar sut i saethu a sut i dynnu gynnau AK47 oddi wrth ei gilydd. Wedi hynny, deuthum yn gyfarwydd ag ymladd. Yr oeddem yn lladd pobl, llosgi tai, dinistrio eiddo, torri aelodau. Ond y rhan fwyaf o'r amser byddwn yn dwyn bwyd ac yn gwneud gwaith tŷ i wraig y pennaeth. Y rheswm am hynny oedd fy mod i mor denau.

'Ym mis Ionawr 2000, ddwy flynedd wedi imi gael fy nal, cyfarfu ceidwaid heddwch y Cenhedloedd Unedig â'r pennaeth i esbonio'r cynllun Diarfogi, Dadfyddino ac Ailintegreiddio. O fewn deuddydd rhyddhawyd mwy na 250 o blant. Aethpwyd â ni i ganolfan ofal yn Lunsar ac yna fe'm rhoddwyd yng ngofal [y mudiad nad yw'n perthyn i'r llywodraeth] Caritas Makeni ...

'Rhoddwyd fi mewn ysgol gymunedol gyda phlant eraill. Doedd y plant eraill ddim yn gyfeillgar â ni. Galwent ni yn 'blant y gwrthryfel'. Felly, fe gynhaliodd Caritas sawl cyfarfod gyda gwahanol bobl yn y gymuned i'w cael i faddau inni a'n derbyn. Fe weithiodd hynny'n dda iawn, oherwydd ar ddiwedd y flwyddyn cytunodd gwraig o'r gymuned i fod yn fam faeth imi. Rwy'n dal i fyw gyda hi, oherwydd nid ydynt eto wedi dod o hyd i'm teulu ...

'Diolch i chwi am fy ngwahodd i ddweud fy stori ar ran fy mrodyr a'm chwiorydd yn Sierra Leone ac mewn gwledydd eraill lle y mae rhyfel. Rwy'n gobeithio y bydd y llywodraeth a'r Cenhedloedd Unedig ym mhob gwlad yn gwrandao ar blant ac yn cymryd sylw o'n geiriau. Y mae arnom eisiau gwell bywyd. Y mae arnom eisiau heddwch. Yn hyn o beth, yr ydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth barhaus chwi.'

Bu Alhaji yn blentyn o filwr yn Sierra Leone. Gallodd symud o fod yn filwr i fod yn dangnefeddwr, a chafodd ddweud ei stori wrth Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig.

Chwiliwch am storïau eraill am bobl a orfodwyd i fyw celwydd. Gwnewch restr o'r math o waith rhyddhaol a all chwalu'r celwydd a datguddio'r gwirionedd. A oes yna bobl fel hyn yn ein cymunedau? Os oes, beth y gellir ei wneud i'w cynorthwyo?

Darllen y Beibl

Mathew 21.1-11

- 1 Pan ddaethant yn agos i Jerwsalem a chyrraedd Bethffage a Mynydd yr Olewydd, yna anfonodd Iesu ddau ddisgybl
- 2 Gan ddweud wrthynt, "Ewch i'r pentref sydd gyferbyn â chwi, ac yn syth fe gewch asen wedi ei rhwymo, ac ebol gyda hi. Gollyngwch hwy a dewch â hwy ataf.
- 3 Ac os dywed rhywun rywbeth wrthyich, dywedwch, 'Y mae ar y Meistr eu hangen'; a bydd yn eu rhoi ar unwaith."
- 4 Digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd:
- 5 "Dywedwch wrth ferch Seion, 'Wele dy frenin yn dod ataf, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol, llwdd anifail gwaith.'"
- 6 Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchmynnodd Iesu iddynt;
- 7 Daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt.
- 8 Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd.
- 9 Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!"
- 10 Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi. Yr oedd pobl yn gofyn, "Pwy yw hwn?",
- 11 A'r tyrfaoedd yn ateb, "Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngallilea."

Fel y gwelwch ar ddechrau'r adnodd hwn, mae'r mynediad buddugoliaethus i Jerwsalem yn hoelio'r sylw ar y cwestiwn canolog, sef pwy yw Iesu. Dengys yr efengylau Iesu yn cychwyn ar ei weinidogaeth, ei waith gyda'i ddisgyblion a'r geiriau a lefarodd a'r pethau a gyflawnodd ymhlith y bobl. Ond noda'r mynediad i Jerwsalem ddechrau'r diwedd, amser penderfynu beth oedd pwrpas hyn oll. O feddwl yn ôl am y temtio yn yr anialwch, lle y dechreuasom y Garawys, cofiwn i Iesu frwydro â gweledigaethau gau y byd o allu a gogoniant, o'u gwrthgyferbynnu â gwneud ewyllys ei Dad. Yma, y mae'r bobl yn ymateb fel pe bai wedi dewis yr union allu a gogoniant hynny, ond y mae ef yn glynu at y gwirionedd, er i hynny arwain at ei arestio, ei gollfarnu a'i anfon i'w groes.

Cwestiynau i'w trafod

- Pa negeseuon dybiwch chwi, a fwriadai Iesu wrth ddewis mynd i mewn i Jerwsalem ar asyn? A ydych yn meddwl bod pobl yn deall gwirionedd yr hyn a ddywedai wrthynt?
- Dychmygwch eich bod yn un o ddisgyblion Iesu. Beth fyddai eich barn am y mynediad i Jerwsalem? Pa obeithion ac ofnau a fyddai gennych am beth fyddai'n digwydd nesaf?
- Dychmygwch eich bod yn un o'r bobl yn y dorf yn gofyn pwy oedd Iesu. Beth ydych yn ei feddwl y byddai eraill yn ei ddweud wrthyich amdano a sut y byddech yn penderfynu pwy ydoedd?

Efengyl

Mathew 27: 11-54

Nodwch: y mae'r darlleniad am heddiw yn cynnwys y cyfan o Fathew 27:11-54; isod fe gewch ddetholiad byrrach o'r darn.

Mathew 27: 11-12

¹¹ Safodd Iesu gerbron y rhaglaw; a holodd y rhaglaw ef: "Ai ti yw Brenin yr Iddewon?" Atebodd Iesu, "Ti sy'n dweud hynny."

¹² A phan gyhuddwyd ef gan y prif offeiriaid a'r henuriaid, nid atebodd ddim.

Mathew 27: 27-44

²⁷ Yna cymerodd milwyr y rhaglaw Iesu i'r Praetoriwm a chynnull yr holl fintai o'i gwmpas.

²⁸ Wedi diosg ei ddillad, rhoesant glogyn ysgarlad amdano;

²⁹ Plethasant goron o ddrain a'i gosod ar ei ben, a gwialen yn ei law dde. Aethant ar eu gliniau o'i flaen a'i watwar: "Henffych well, Frenin yr Iddewon!"

³⁰ Poerasant arno, a chymryd y wialen a'i guro ar ei ben.

³¹ Ac wedi iddynt ei watwar, tynasant y clogyn oddi amdano a'i wisgo ef â'i ddillad ei hun, a mynd ag ef ymaith i'w groeshoelio.

³² Wrth fynd allan daethant ar draws dyn o Cyrene o'r enw Simon, a gorfodi hwnnw i gario ei groes ef.

³³ Daethant i le a elwir Golgotha, hynny yw, "Lle Penglog",

³⁴ Ac yno rhoesant iddo i'w yfed win wedi ei gymysgu â bustl, ond ar ôl iddo ei brofi, gwrthododd ei yfed.

³⁵ Croeshoeliasant ef, ac yna rhanasant ei ddillad, gan fwrw coelbren,

³⁶ Ac eisteddasant yno i'w wyllo.

³⁷ Uwch ei ben gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn mewn ysgrifen: "Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon."

³⁸ Yna croeshoeliwyd gydag ef ddau leidr, un ar y dde ac un ar y chwith.

³⁹ Yr oedd y rhai oedd yn mynd heibio yn ei gablu ef, yn ysgwyd eu pennau

⁴⁰ A dweud, "Ti sydd am fwrw'r deml i lawr a'i hadeiladu mewn tridiau, achub dy hun, os Mab Duw wyt ti, a disgyn oddi ar y groes."

⁴¹ A'r un modd yr oedd y prif offeiriaid hefyd, ynghyd â'r ysgrifenyddion a'r henuriaid, yn ei watwar ac yn dweud,

⁴² "Fe achubodd eraill; ni all ei achub ei hun. Brenin Israel yn wir! Disgynned yn awr oddi ar y groes ac fe gredwn ynddo.

⁴³ Ymddiriedodd yn Nuw; boed i Dduw ei waredu yn awr, os yw â'i fryd arno, oherwydd dywedodd, 'Mab Duw ydwyf.'"

⁴⁴ Yr un modd, yr oedd hyd yn oed y lladron a groeshoeliwyd gydag ef yn ei wawdio.

Mathew 27: 50-54

⁵⁰ Gwaeddodd Iesu drachefn â llef uchel, a bu farw.

⁵¹ A dyma len y deml yn cael ei rhwygo yn ddwy o'r pen i'r gwaelod. Siglwyd y ddaear a holltwyd y creigiau;

⁵² Agorwyd y beddau a chyfodwyd cyrff llawer o'r saint oedd wedi huno.

⁵³ Ac ar ôl atgyfodiad Iesu, daethant allan o'u beddau a mynd i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac fe'u gwelwyd gan lawer.

⁵⁴ Ond pan welodd y canwriad, a'r rhai oedd gydag ef yn gwyllo Iesu, y daeargryn a'r cwbl oedd yn digwydd, daeth ofn mawr arnynt a dywedasant, "Yn wir, Mab Duw oedd hwn."

'Ai ti yw Brenin yr Iddewon?' Dyma nid yn unig gwestiwn Pilat i Iesu ond hefyd thema'r holl adran. Pa 'ddarlun' o Iesu yw'r darlun gwir? Ai brenin ydyw ynteu terfysgwyr? Dilyna'r milwyr y thema o Iesu'n frenin pan blethant goron ddain iddo a'i wisgo mewn porffor. Yr oedd yr arwydd a osodwyd

ar y groes yn datgan yn eironig mai ef oedd 'Brenin yr Iddewon' – dyna pam y croeshoeliwyd ef. Heriai'r ysgrifenyddion a'r henuriaid o amgylch y groes ef i brofi'r peth, 'Brenin Israel yn wir! Disgynned yn awr oddi ar y groes ac fe gredwn ynddo'.

Felly, ai 'Brenin yr Iddewon' ydyw? Yr ateb yw 'le' a 'Nage'. Y mae defnyddio'r geiriau yna yn wir ac yn anwir. Dyna pam nad atebodd Iesu gwestiwn Pilat. Weithiau, fel yn y fan hon, defnyddir geiriau i guddio'r gwirionedd a'i lurgunio'n anwiredd, neu hyd yn oed i guddio her y gwirionedd oddi wrthym ni ein hunain. Ond y mae llawer o eiriau eraill yn yr adroddiad hwn sy'n wirioneddau amlwg ('o genfigen y traddodasant ef' 27:18) ac eraill sy'n gelwyddau amlwg ('fe gredwn ynddo' 27:42).

Cwestiynau i'w trafod

- Pam, dybiwch chwi, fod yr ysgrifenyddion a'r henuriaid yn gwrthod y gwirionedd am Iesu?
- Dychmygwch mai chwi oedd y canwriad. Beth yn benodol ydych chi'n ei feddwl a'i hargyhoeddodd o'r gwirionedd am Iesu?
- Meddylwch am ffyrdd mewn bywyd bob dydd y gall pobl ddefnyddio geiriau i gamarwain eraill, i gam-drin eraill, i geisio dianc oddi wrth eu cyfrifoldebau. A ydych yn meddwl y gall pobl yn yr Eglwys ymddwyn fel hyn weithiau ac, os felly, sut?

SYMUD I'R GARAWYS

Canlyn Iesu

Os dilynwn fywyd Iesu fel y cofnodir ef yn yr Efengyl yn ôl Ioan, fe welwn fod yr efengyl hon am beri inni feddwl am y gwir a'r gau. Egyr trwy ddatgan yn eofn pwy yw Iesu a pham y dylem gredu ynddo: 'gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd' (Ioan 1:14), ac â ymlaen: 'gras a gwirionedd, trwy Iesu Grist y daethant' (Ioan 1:17). Yn lle rhoi hanes geni Iesu, Ioan yw'r unig un o'r efengylwyr sy'n dechrau'r stori gydag Ioan Fedyddiwr a'r cwestiwn 'pwy wyt ti?' Etyb Ioan nad yw ef ond un sy'n paratoi'r ffordd i Iesu. Yna, cyfarfyddwn ag Iesu'n dod i'w fedyddio, a datgelir mai ef yw 'Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd' (Ioan 1:29).

Wrth ddilyn Iesu drwy Efengyl Ioan, y mae'r daith rywfaint yn wahanol i'r hyn ydyw yn yr efengylau eraill. Gwelwn Iesu yn gwneud arwyddion sy'n torri trwy realiti daearol cyffredin i ddangos gallu a thrugaredd Duw. Mae'n troi dŵr yn win yng Nghana; yn cyfodi Lasarus o blith y meirw; yn iacháu dyn dall o'i enedigaeth; yn porthi miloedd o bobl newynog. Gwna gallu Duw bethau'n 'wir' na fedrant ddigwydd yn nhrefn naturiol pethau. Dysgwn y gwirionedd fod popeth yn bosibl gyda Duw. Yn yr un modd, dysg Nicodemus (Ioan 3:1-21) a'r wraig o Samaria (Ioan 4:1-42) wirioneddau am Dduw na allent fod wedi eu dychmygu cyn hynny. Gwahoddir ninnau, fel hwy, i wrando ar Iesu'n tystio i'r gwirionedd amdano'i hun a'i berthynas â'i Dad. Mewn nifer o ymadroddion yn dechrau â'r geiriau 'Myfi yw', clywn Iesu'n datgan pwy ydyw, beth y mae ar y ddaear i'w gyflawni, a beth y gellir ei ddisgwyl o gredu mai ef yw Mab Duw. Yn ei gyfarfyddiadau â'r Iddewon anghrediniol, rhydd Iesu her ynglŷn â'r gwir a'r gau: 'Os wyf yn dweud y gwir, pam nad ydych chi yn fy nghredu?' (Ioan 8:46). Dyma'r her i ninnau hefyd.

Fe all ei bod yn hawdd inni feddwl ein bod ni Gristnogion yn credu mai Iesu yn wir yw Mab Duw a bod yr arwyddion yn yr Efengyl yn ôl Ioan yn wir, fel y mae popeth a ddysg Iesu inni, a'n bod ninnau 'wedi ein cysegru yn y gwirionedd' (Ioan 17:19), ond dywed Ioan nad yw'n beth mor hawdd â hynny. Mae Philip yn erfyn ar Iesu, 'dangos i ni y Tad, a bydd hynny'n ddigon inni' (Ioan 14:8) ac y mae ar Thomas angen 'profion' clwyfau Iesu cyn y daw i gredu ei fod wedi atgyfodi. Nid yw credu'r gwirionedd am Iesu a dweud y gwir amdano mor hawdd ag y mae'n swnio. A gwelwn ddirnadaeth Iesu ei hun o'r anhawster yn y stori dorcalonnus am Bedr, a addawodd y byddai bob amser yn dweud y gwir am Iesu, yn gwadu ei fod yn ei adnabod, ac yn gwneud hynny nid unwaith ond dro ar ôl tro.

Daw'r Wythnos Fawr, felly, â nifer o sialensiau. Rhaid i ni, gyda Nicodemus a'r wraig o Samaria a'r disgyblion dryslyd, wynebu'r cwestiwn pwyr ydym yn ei feddwl yw Iesu. Beth yw ystyr yr arwyddion a wnaeth Iesu: ai breuddwydion amhosibl neu chwedlau tylwyth teg ydynt, ai ynteu'r gwirionedd am allu Duw a'i ddyhead i drawsnewid ein byd amherffaith? Ymhle y safwn ni wrth inni weld Iesu'n marw ar y groes a'r bedd gwag ar Ddydd y Pasg? Ac, ar ôl y Pasg, a ddywedwn ni'r gwir am Iesu wrth eraill? Neu a fydd hynny gam yn rhy bell inni? Beth am ein tystiolaeth ni i wirionedd yr un a ddaeth atom yn llawn gras a gwirionedd?

Gweithgaredd

Gofynnwch i'r grŵp wyllo rhaglenni Derren Brown ar www.scienceofscams.com ar ddatlennu'r paranormal, neu wyllo rhaglenni teledu megis *Most Haunted*.

- I ba fath o 'wirionedd' a/neu 'anwiredd' yr ydym yn agored pan fyddwn yn gwyllo'r rhaglenni hyn? Beth ydym i fod i'w gredu?
- A ydych yn meddwl y gall dibynnu ar bobl seicig neu sêr-ddewiniaid arwain pobl yn y diwedd i fod yn grwpiau o rai Nas Cymodwyd? Ai'r unig beth y mae ei angen arnynt yw Derren Brown i chwalu ffenomenau seicig, neu a oes arnynt angen rhywbeth arall?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y math hwn o beth ar deledu ynglŷn â 'gwirionedd', 'rhith' a 'chelwyddau' a'r hyn a gredwn ni am wirionedd y ffydd Gristnogol?
- Beth fydddech chi'n ei ddweud wrth anghredadun sy'n meddwl bod Cristnogaeth yn yr un categori â chredoau paranormal?

SYMUD ALLAN

Gweithredu yn y gymuned

Gwahoddwch unrhyw bobl yr ydych yn eu hadnabod yn eich cymuned leol sy'n gorfod delio â materion y mae a wnelont â'r gwir a'r gau i sôn pa mor anodd yw nithio'r hyn a ddywed pobl. Gallai pobl o'r fath gynnwys swyddogion o'r heddlu, athrawon, gweithwyr cymdeithasol neu ynadon. Trafodwch gyda hwy pa berthynas sydd rhyngddynt â phobl Nas Cymodwyd yn y gymuned, sut y byddant yn penderfynu beth sy'n wir ac yn gweithredu ar eu penderfyniadau.

GORFFWYS AR Y DAITH

Myfyrdod diwinyddol a gweddi

Darllenwch y stori hon i'r grŵp:

Stori Grace

Yn yr ysgol y dechreuodd y peth. Cychwynnodd rhywun nad oedd yn hoff ohonof si fy mod i wedi dwyn CD o siop. Byddwn yn gwadu hynny wrth bwy bynnag a ofynnai, ond ar ôl wythnos roedd pawb yn meddwl fy mod i'n dwyn CDs. Dechreuodd rhai fy mhlagio am rai o'r CDs. Yn fuan iawn roedd y stori ymhobman, a phan gollodd rhywun arian, fe'm cyhuddwyd i o'i ladrata. Roeddwn i'n mynd yn orffwyll. Gofynnodd yr athro imi a oeddwn i'n dwyn pethau, ac mi euthum yn gynnwrf i gyd am na fedrwn esbonio nad oeddwn i ddim ac nad oeddwn i wedi gwneud dim byd o'i le. Hyd yn oed pan aeth pethau mor bell nes i'r sawl a gychwynnodd y stori ddweud mai anwiredd ydoedd, nid oedd neb yn ei chredu. Ym meddwl pawb, roeddwn i'n lleidr. Fe wnaeth fy mywyd i'n boen.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp drafod sut y maent yn teimlo ynglŷn â stori Grace.

Gweddi

Arglwydd,
gweddiwn dros y rhai sy'n garcharorion anwiredd,

rhai y dywedwyd anwiredd wrthynt,
rhai y dywedwyd anwiredd amdanynt,
rhai a orfodwyd i fyw anwiredd yn feunyddiol.
Y mae dy ffordd di yn wirionedd ac yn fywyd;
cynorthwya ni i falurio gwe anwiredd,
i glirio gofod i boen a storïau gofidus,
fel y caiff dy oleuni a'th dangnefedd di
le newydd yng nghalonau pawb. Amen

AMSER PENDERFYNU

Beth sy'n mynd i newid?

Yn awr casglwch eich meddyliau a'ch syniadau ynghyd ac ystyriwch y cwestiynau hyn:

- **Ymhle y mae had bywyd newydd?** Pa ddoniau a roddodd Duw inni i ddweud y gwir am bobl yn ein cymuned?
- **Sut i'w gludo?** Pa adnoddau fydd arnom eu hangen i gywiro anghyfiawnder a achosir gan gelwydd ac anwiredd?
- **Ymhle y genir y bywyd newydd?** Meddylwch am un weithred o gymod y gallwn ei gwneud i beri i'r Rhai Nas Cymodwyd deimlo bod eu stori yn cael ei dweud.
- **Sut y gallwn ei feithrin?** Sut y gallwn gynnal y weithred o gymod a sicrhau ei llwyddiant?
- **Beth ydym ni'n obeithio ei weld?** Beth fydd wedi newid ar ddiwedd y broses a pha wahaniaeth y dylai fod wedi ei wneud?

Mynd ymhellach

Sylfaenwyd yr adnodd hwn ar y bennod 'Lies and Truth' yn y llyfr *Unreconciled?* lle y cewch lawer o wybodaeth, storïau a syniadau pellach y gallwch eu defnyddio at astudiaeth bersonol neu mewn grŵp, gan gynnwys syniadau pellach at weithgareddau.

Bydd y Gwasanaeth Dyddiol ar Radio 4 o 18 i 21 Ebrill yn cynnig mwy o ddarlenniadau a myfyrdodau ar thema trefn ac anhrefn.

Cymerwyd y dyfyniadau o'r Ysgrythur allan o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig, 2004, © Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon, SN5 7DG.

Ffotograff o'r Rhai Nas Cymodwyd (y Groes a'r gwydr a dorwyd): CTBI / Vicki a Chuck Rogers / Phil Dragash (Creative Commons - BY-NC-SA)